## Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: CRAFFU AR GYLLIDEB DDRAFFT LLYWODRAETH CYMRU 2018-19, RHAGFYR 2017

### DIWEDDARIAD CHWEFROR 2018

Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 ddwy waith yn ystod mis Tachwedd 2017. Yn dilyn hynny, roedd y Pwyllgor PPIA wedi cwblhau ei adroddiad sy'n cynnwys 21 o argymhellion, ac rwyf wedi ymateb yn ffurfiol i'r rheini.

Mae'r papur hwn yn cynnwys y newyddion diweddaraf mewn perthynas ag Argymhelliad 7 adroddiad y Pwyllgor, ac mae'n ymdrin yn benodol â'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion, a'r cymorth ar gyfer cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig ac addysg dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Fel rhan o broses graffu ar y Gyllideb Ddrafft, rhoddais wybod i'r Pwyllgor fy mod o'r farn y dylid cynnwys cymorth ariannol i'r maes hwn fel rhan o'm blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Leol. Mae hwn yn fater yr oeddwn wedi'i ystyried yn ofalus iawn.

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

> Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd yn Adroddiad y Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig (Chwefror 2017), rydym yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i neilltuo cymorth ariannol i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig fel rhan o'r Grant Gwella Addysg.

Yn fy ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor, roeddwn wedi gwrthod yr argymhelliad hwn, gan nodi bod nifer o faterion i'w hystyried a mynd i'r afael â nhw o hyd.

Yn y lle cyntaf, yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gyllid i ysgolion, ac mae'n ddyletswydd arnynt i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu sydd ar gael i bob dysgwr yn un briodol. Ers mwy na degawd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant ychwanegol sydd wedi'i dargedu i Lywodraeth Leol, er mwyn cefnogi ein dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dros y cyfnod hwnnw, mae Awdurdodau Lleol wedi rhoi trefniadau ar brawf, ac rwy'n llwyr gydnabod yr arbenigedd a'r profiad yn ein hysgolion ac yng ngwasanaethau'r Awdurdodau Lleol.

Yn ail, yr hyn sy'n glir imi yw na ddylem ganiatáu i'r math hwn o gymorth gael ei ystyried i fod yn gymorth ychwanegol. Nid yw hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir, a dylem gael disgwyliadau gwell. Roeddwn wedi croesawu ymchwiliad y Pwyllgor PPIA i'r Grant Gwella Addysg. Ac, er bod y dystiolaeth a gafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn eang, yn amrywio ac yn anghyson mewn rhannau, roedd yn ymddangos bod galw clir am drefniadau cyllido cynaliadwy a chyson. Yn fy marn i, un o'r meysydd sylfaenol a oedd yn peri pryder i'r Pwyllgor oedd atebolrwydd Llywodraeth Leol ac eithrio ar gyfer trefniadau grantiau sydd wedi'u neilltuo.

Mae Llywodraeth Leol wedi galw ers amser ar beidio â neilltuo cyllid grant, ac am gael trefniadau syml, a mwy o hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau a rheoli'r pwysau sydd arnynt. Gwasanaethau Awdurdodau Lleol yw'r rhain, a Setliad Llywodraeth Leol yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy o hyd i ariannu'r ddarpariaeth graidd.

Ac yn olaf, wrth flaenoriaethu cyllid i Lywodraeth Leol ar gyfer ysgolion, mae holl Ysgrifenyddion y Cabinet a'r holl Weinidogion wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ac ystyried amrediad o wasanaethau a'r ffordd y maent yn cael eu hariannu.

Felly, rwy o'r farn ei fod yn iawn ac yn briodol fy mod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r mater hwn fel rhan o ffordd o weithio'r llywodraeth gyfan i gefnogi Llywodraeth Leol wrth gyflawni eu dyletswyddau. Dyna pam rwy wedi ysgrifennu at Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y mater hwn dros y misoedd diwethaf. Rwy wedi egluro'r hyn rwy'n ei ddisgwyl, ac wedi darparu gwybodaeth i gefnogi eu gwaith cynllunio. Yn dilyn hynny, rwy wedi croesawu'r sicrwydd y mae'r Arweinydd wedi'i roi ar ran Llywodraeth Leol y byddant yn parhau i roi blaenoriaeth i gefnogi dysgwyr agored i niwed o oedran cynnar, gan gynnwys dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Fodd bynnag, wrth geisio cyflawni nodau yn sgil y sicrwydd hwn, rhoddwyd gwybod imi fod rhai Awdurdodau, sef yn benodol Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, wedi nodi y byddant yn cael eu heffeithio mewn ffordd negyddol mewn perthynas â materion dosbarthiadol. A nhw yw'r prif ganolfannau o ran dwysedd poblogaeth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed.

Er fy mod wedi bod yn glir nad trosglwyddiad grant mo hwn, ac nad yw'n ddarostyngedig i'r un prosesau, rydym yn cydymdeimlo â'r sylwadau yr ydym wedi'u derbyn. Yn sgil hynny, rydym wedi bod yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddod o hyd i atebion.

Rwy'n falch i ddweud ein bod wedi cytuno ar gyllid o £5 miliwn ychwanegol o Gronfeydd wrth gefn ar gyfer 2018-19. Bydd hynny'n lleddfu'r effaith ar ein prif awdurdodau trefol, ac rydym wedi cadarnhau'r dyraniadau mewn ysgrifen i'r Prif Swyddogion Gweithredol. Yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, mae'r cymorth hwn wedi'i groesawu.

O ran symud ymlaen, hoffem gydweithio â'r prif ardaloedd trefol, sef Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, i'w helpu i baratoi at sicrhau cymorth i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y dyfodol.

Wrth inni gydweithio â'r awdurdodau hynny ac â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rwy'n awyddus i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle hwnnw i wneud cynnydd yn erbyn y dull polisi a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014.

Roedd ein datganiad polisi yn rhoi sylw i'r ffaith nad oedd ein trefniadau cyllido ar y pryd yn rhai cynaliadwy, a bod angen i'r Awdurdodau weithio mewn ffordd fwy cydweithredol ac mewn partneriaeth er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn sgil yr angen cynyddol a chyllidebau sydd dan bwysau yn y dyfodol. Nid oedd tystiolaeth Estyn i'r Pwyllgor wedi dangos bod angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r

trefniadau cyflenwi, er gwaethaf sicrhau bod y cyllid yn rhan o ddull rhanbarthol amlwg o weithredu.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £2.5 miliwn ychwanegol ar gyfer 2018-19 i gefnogi'r broses bontio i sicrhau bod sail ranbarthol i'r gwaith hwn yn unol â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

Roeddwn wedi croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i'r Grant Gwella Addysg. Ac wrth inni gydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau trefol i symud i drefniadau mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, byddaf yn cadw mewn cof y pryderon a godwyd gennych ynghylch atebolrwydd wrth inni geisio cael y deilliannau addysgol gorau posibl i'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru.

Mae fy swyddogion yn cyfarfod â Phrif Swyddogion Gweithredol Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, a byddaf yn rhoi gwybod y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd.

Gan droi yn gryno at faterion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy ac asesiadau o effaith, rydym wedi ystyried y gofynion ar Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ystod proses pennu'r gyllideb hon, ac wedi rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rwy'n siŵr y bydd yr Awdurdodau Lleol bellach yn dymuno gwneud yr un fath yng nghyd-destun eu prosesau nhw i bennu cyllidebau.